

Mae S4C yn falch i gyhoeddi Côr Cymru 2022 – cystadleuaeth gyda gwobr gyntaf o **£4,000**. Mae gan Gymru draddodiad hir a llewyrchus o ganu corawl, a nod y gystadleuaeth yw cynnal a chodi'r safonau hynny.

Trefnir y gystadleuaeth gan gwmni Rondo Media a bydd y rowndiau cyn-derfynol a'r rownd derfynol yn cael eu recordio gan Rondo i'w darlledu ar S4C.

Mae pump categori yn y gystadleuaeth:

Corau Plant 16 oed ac o dan

Corau Ieuentid o dan 25 oed

Corau Cymysg

Corau Lleisiau Unfath (Merched neu Meibion)

Côr Sioe (cantorion sy'n cyfuno canu a llwyfannu) lle mae pob agwedd o'r perfformiad yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth feirniadu gan gynnwys coreograffi, dweud stori ac adloniant gyda ffocws arbennig ar allu cerddorol a thechneg lleisiol. Mae'r arddull yn ymestyn o gerddoriaeth pop i sioeau cerdd i jazz. Anogir corau i ganu un darn o'r set yn ddigyfeiliant.

Yn dilyn cyfres o glyweliadau sain led led Cymru gwahoddir hyd at bedwar côr ym mhob categori i ymddangos yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth ar benwythnos

Chwefror 18ed – 20ed 2022.

Bydd pob côr sy'n cyrraedd y rowndiau cyn-derfynol yn derbyn gwobr o £500 a bydd enillwyr y categoriau uchod yn derbyn gwobr ychwanegol o £1,000.

Ni fydd ennill y categori yn gwarantu lle yn y rownd derfynol.

Bydd panel o feirniaid rhyngwladol yn dewis 5 côr o'r penwythnos i ymddangos yn y rownd derfynol yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ar **Sul, Ebrill 3ydd 2022.**

Bydd y corau yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am y teitl Côr Cymru 2022 a'r brif wobwr o £4,000.

Gwobr Arweinydd

Cyflwynir gwobr arbennig i'r arweinydd gorau yn y gystadleuaeth. Bydd y dewis yn cael ei wneud yn ystod y rowndiau cyn-derfynol.

Gwobr am y perfformiad gorau gan gôr o'r rowndiau cyn-derfynol sydd ddim yn y ffeinal.

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth gorau o Gymru a chorau o'r tu hwnt i Glawdd Offa sydd â chysylltiad agos â Chymru neu sy'n perfformio'n gyson yn yr iaith Gymraeg.

Rhaid bod lleiafswm o 20 aelod ym mhob Côt. Yn y categori Corau Ieuentid, rhaid i bob aelod o'r côr fod o dan 25 oed ar Awst 31ain 2022. Yn y categori Corau Plant, rhaid i bob aelod o'r côr fod yn 16 oed neu o dan 16 oed ar Awst 31ain 2022.

Côt Cymru yw'r dull o ddewis côr i gynrhychioli Cymru yng nghystadleuaeth Côt Eurovision.

Dyddiad cau derbyn ceisiadau: Hydref 8ed 2021.

1. Gwrandawiaidau:

Bydd pob côr yn cael eu recordio (sain yn unig) gan beiriannydd sain proffesiynol yn eu cynefin ddiwedd Tachwedd 2021. Dylai'r corau baratoi rhaglen amrywiol o gerddoriaeth rhwng 6-8 munud. Er nad oes rheidrwydd i gynnwys darn di-gyfeiliant rydym yn annog corau i wneud hyn. Ni chaniateir golygu'r perfformiad, a chaiff pob côr gopi o'u perfformiad.

Bwriedir recordio yn yr ardaloedd canlynol fel a ganlyn:

Nos Wener	19.11.21	Yr Wyddgrug
Dydd Sul	21.11.21	Bangor
Nos Lun NEU nos Fawrth	22 NEU 23.11.21	Aberystwyth
Nos Fawrth NEU nos Fercher 23 NEU	24.11.21	Castell Newydd Emlyn
Nos Fercher NEU nos Iau	24 NEU 25.11.21	Caerfyrddin
Dydd Sadwrn	27.11.21	Caerdydd

Lle dynodir dau ddyddiad, dim ond un o'r nosweithiau y byddwn ni'n recordio yn yr ardal honno. Bydd cadarnhâd o'r noson ar ôl y dyddiad cau.

Gwrandewir ar y recordiadau gan banel o feirniaid rhyngwladol, ac fe fydd y corau'n cael eu hadnabod fesul rhif, ac nid enw. Y gobaith yw hysbysu pob côr o ganlyniad eu gwrandawriad erbyn diwedd Rhagfyr 2021, pan y gwahoddir hyd at bedwar côr ym mhob categori i fynd ymlaen i'r rownd gyn-derfynol. Bydd barn y panel beirniaid yn derfynol.

2. Rowndiau cyn-derfynol Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth

Bwriedir cynnal y rowndiau cyn-derfynol fel a ganlyn:

Nos Wener	18.02.22	Corau Ieuencid
P'nawn Sadwrn	19.02.22	Corau Lleisiau Unfath
Nos Sadwrn	19.02.22	Corau Sioe
P'nawn Sul	20.02.22	Corau Plant
Nos Sul	20.02.22	Corau Cymysg

Fodd bynnag, gofynnir i'r corau gadw'r penwythnos i gyd yn rhydd rhag ofn y bydd newid trefn.

Gofynnir i'r corau berfformio rhaglen amrywiol o 10 - 12 munud o gerddoriaeth.

Dylid canu o leiaf un darn yn yr iaith Gymraeg, ac ni chaniateir mwy nag un darn yn yr iaith Saesneg.

Bydd panel o feirniaid rhyngwladol **yn dewis 5 côr o'r penwythnos i ymddangos yn y rownd derfynol ar 3ydd Ebrill 2022** a bydd barn y panel yn derfynol.

Gofynnir i'r corau:

Erbyn **Rhagfyr 1af 2021** fan bellaf

- gyflwyno **rhaglen y rownd gyn-derfynol** ar bapur neu trwy ebost.
- Darparu cadarnhau o gliriadau hawlfraint os bydd angen.
- anfon **copïau o'r gerddoriaeth** gyda unrhyw doriadau neu 'ail-ganu' wedi eu copïo mewn yn barod.

Ni chaniateir newid y rhaglen ar ôl y dyddiad yma oni bai bod problem yn codi gyda chlirio hawlfraint darlledu darn arbennig.

Erbyn **Ionawr 17eg 2022**

- **gwybodaeth am unawdwyr, niferoedd, trefn sefyll a chyfeiliant.**

Erbyn **Ionawr 24ain 2022** fan bellaf

- **recordiad gweledol** (fideo) wedi ei wneud ar ffôn/ipad/dablet o'r darnau fel mae nhw'n cael eu cyflwyno ar lwyfan. **Mae'n orfodol i bob côr baratoi fideo** er mwyn galluogi'r Cyfarwyddwr i baratoi sgrïpt fanwl cyn y perfformiadau yn Aberystwyth.

Mae gan S4C yr hawl i ofyn i gôr newid y rhaglen os oes problem yn codi gyda hawlfraint darlledu.

3. Rownd derfynol:

Gofynnir i'r corau berfformio rhaglen amrywiol o 12 munud o gerddoriaeth. Dylid canu o leiaf un darn yn yr iaith Gymraeg, ac ni chaniateir mwy nag un darn yn yr iaith Saesneg. Rhaid i raglen y rownd derfynol fod yn wahanol i'r rownd gyn-derfynol, ond caniateir canu un darn o raglen y rownd gyn-derfynol yn y rownd derfynol, os dymuna'r côr wneud hynny.

Panel o feirniaid rhyngwladol fydd yn dewis Côr Cymru 2022.

Bydd barn y panel yn derfynol.

Gofynnir i'r Corau:

Erbyn **Mawrth 1af 2022** fan bellaf

- gyflwyno rhaglen y rownd derfynol.
- Darparu cadarnhau o gliriadau hawlfraint os bydd angen.

Ni chaniateir newid y rhaglen ar ôl y dyddiad yma oni bai bod problem yn codi gyda chlirio hawlfraint darlledu darn arbennig.

Erbyn **Mawrth 14eg 2022**

- **gwybodaeth am unawdwy, niferoedd, trefn sefyll a chyfeiliant.**
- **recordiad gweledol** (fideo) o'r darnau fel mae nhw'n cael eu cyflwyno ar lwyfan ar ffôn/ipad/dablet. Mae'n orfodol i bob côr baratoi fideo er mwyn galluogi'r Cyfarwyddwr i baratoi sgript fanwl cyn y perfformiadau yn Aberystwyth.

Mae gan S4C yr hawl i ofyn i gôr newid y rhaglen os oes problem yn codi gyda hawlfraint darlledu.

Mae gan S4C yr hawl i wrthod corau i gystadlu os nad ydynt yn cydymffurfio gyda'r amodau.

Os ydych yn defnyddio cyfieithiad neu drefniant sydd heb ei gyhoeddi, mae angen caniatâd ar bapur wrth gyhoeddwyr y gwreiddiol os gwelwch yn dda. Cyfrifoldeb y corau yw talu am gomisiynu'r cyfieithiadau newydd ac am y caniatâd i ddefnyddio'r cyfieithiadau ar S4C. Dyw'r ffaith bo darn wedi cael ei berfformio ar S4C yn y gorffennol ddim o reidrwydd yn golygu y ceir caniatâd i'w ddarlledu eto gan bod hi'n ddyletswydd ar y cynhyrchwyr i glirio cyfieithiad/trefniant bob tro mae'n cael ei berfformio ar gyfer teledu. Gorau po gyntaf mae'r wybodaeth yn ein cyrraedd ni o ran repertoire sy'n cynnwys trefniannau/cyfieithiadau/darnau heb eu cyhoeddi.

Os am gymorth o berchnogaeth o ddarn o gerddoriaeth, gyfieithiad neu drefniant yna ebostiwch corcymru@rondomedia.co.uk ac fe wnawn ni'n gorau i geisio dod o hyd i'r wybodaeth berthnasol i chi.

Ni ellir gwarantu perfformio darnau oni bai bod y caniatâd cywir wedi ei roi.

Cyfeiliant

Trwy gydol y gystadleuaeth, caniateir defnyddio hyd at 5 cerddor fel cyfeiliant i'r eitemau. Cyfrifoldeb y côr yw trefnu'r cerddorion a thalu unrhyw ffioedd sy'n ddyledus trwy ddarlledu.

Teithio i Aberystwyth

Bydd Rondo yn trefnu ac yn talu am fws i'r côr gyrraedd Aberystwyth.
Ni fydd Rondo yn cyfrannu tuag at gost llety yn Aberystwyth.

Chaperones

Er mwyn sicrhau eu diogelwch a chydymffurfio â gofynion unrhyw drwyddedau perfformio, os oes unigolion o oedran 16 neu iau ar ddiwedd mis Awst 2022 yn rhan o'ch côr yna fe fydd angen i'r corau drefnu fod chaperone cofrestredig yn teithio ar unrhyw fws y bydd Rondo yn ei drefnu ar gyfer cludo'r côr i Aberystwyth ac yn ôl.
Tra yn Aberystwyth fe fydd Rondo yn trefnu chaperones i fod ar ddyletswydd gydol y cyfnod cystadlu ac yn cydweithio gyda threfnyddion y corau i drefnu gofal y plant yn ystod y cystadlu yn Aberystwyth.

Mae Rondo'n cadw'r hawl ar unrhyw amser i ddiwygio'r rheolau yma neu ohirio, canslo neu newid unrhyw ran o'r gystadleuaeth neu gynhyrchu'r Gyfres neu i gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Côr Eurovision o ganlyniad i digwyddiadau tu hwnt i'n rheolaeth neu fel arall.

Am fwy o fanylion, cysyllter â:

Swyddfa Côr Cymru 2022 Rondo Llawr 9 Ty South Gate. Wood Street Caerdydd CF10 1EW

Ffôn: 029 2022 3456

Cost galwad arferol, gall y gost fod yn uwch drwy ffôn symudol

E-bost: corcymru@rondomedia.co.uk

Gweler amodau llawn y gystadleuaeth ar www.s4c.cymru/corcymru ac ar www.rondomedia.co.uk

Gwarchod Data

Fe fydd Rondo yn cydymffurfio â'r cyfreithiau gwarchod data a'r egwyddorion sydd wedi eu gosod yn y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) gan gynnwys:

- Sicrhau defnydd cyfreithiol, teg a thryloyw o'ch data
- Ein bod dim ond yn casglu data at bwrpasau dilys yr ydym wedi eu nodi wrthyh ac na fyddwn yn defnyddio'r data at bwrpasau eraill
- Bydd ein defnydd o'r data yn berthnasol i'r pwrpas rydym wedi ei nodi wrthyh
- Bydd y data'n cael ei gadw'n gywir a'i ddiweddarau
- Byddwn yn cadw'r data am y cyfnod sy'n angenrheidiol er mwyn diwallu'r pwrpas rydym wedi nodi
- Byddwn yn cadw'r data'n ddiogel

Y math o ddata byddwn yn ei ddal

Mae'r holl wybodaeth y byddwn yn ei gasglu gennych yn cynnwys y wybodaeth y byddwch wedi ei rannu gyda ni ar gyfer y Rhaglen ond hefyd unrhyw wybodaeth bellach y byddwch yn ei rannu gyda ni wrth gynnal y gystadleuaeth ac wrth gynhyrchu'r Rhaglen gan gynnwys enw, cyfeiriad, ebost a rhif ffon.

Mae'n bosib y byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth am iechyd ac unrhyw anghenion arbennig sy'n berthnasol i chi er mwyn gwneud trefniadau priodol wrth gynhyrchu'r Rhaglen.

Ein defnydd o'r wybodaeth

Rydym eisiau bod yn dryloyw o ran y defnydd a wnawn o'ch gwybodaeth fel eich bod yn deall sut a pham ein bod yn ei chasglu ac yn ei defnyddio, ac er mwyn i chi wybod y gallwch ymddiried ynom bob amser.

Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn asesu eich addasrwydd ar gyfer cymryd rhan yn y Rhaglen, i gysylltu â chi ynglyn â threfniadau yn ymwneud â chynhyrchu'r Rhaglen ac er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

Mae gan Rondo ddiddordeb dilys (legitimate interest) i brosesu eich data fel rhan o'r broses o gynhyrchu'r Rhaglen. Unig bwrpas gofyn am wybodaeth amdanoch yw i allogi Rondo i gynhyrchu'r gystadleuaeth a'r gyfres deledu ar gyfer S4C mewn modd adloniannol ac er mwyn cydymffurfio gyda'n oblygiadau cytundebol wrth gynhyrchu'r gyfres ar gyfer S4C.

A fydd Rondo'n rhannu fy ngwybodaeth personol ag eraill?

Fe fydd Rondo'n rhannu peth o'r data gydag S4C er mwyn ateb gofynion cytundebol Rondo gyda S4C ac er mwyn trafod elfennau'r Rhaglen gydag S4C. Mae'n ofynnol ar i S4C i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol er mwyn gwarchod y data ac mae gan S4C brosesau priodol mewn lle er mwyn sicrhau hynny.

Ni fydd Rondo yn gwerthu eich data i unrhyw un arall. Ni fyddwn yn trosglwyddo eich gwybodaeth ymlaen i sefydliad gwahanol, (ag eithrio S4C fel rhan o gynhyrchu'r gyfres), ond gyda'ch caniatâd chi, neu yn yr amgylchiadau cyfyngedig a nodir yma.

Bydd Rondo yn gofalu am eich gwybodaeth wrth ei storio'n ddiogel ar ein Sistem Rheoli Cynnwys ar ein cyfrifiaduron ac mewn ffurfiau eraill diogel. Byddwn yn cyfyngu mynediad i'r wybodaeth i'r gweithwyr hynny yn unig sydd angen gwybod yr wybodaeth er mwyn cynhyrchu'r Rhaglen. Fe fydd yr unigolion hynny'n prosesu eich data yn dilyn cyfarwyddyd gennym ni yn unig ac o dan ymrwymiad o gyfrinachedd.

Byddwn yn cadw'r wybodaeth am hyd cyfnod cynhyrchu'r gyfres ar gyfer S4C ac yna yn ei waredu oni bai bod rhesymau cytundebol neu gyfreithiol fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Rondo ac S4C gadw elfennau o'r wybodaeth at bwrpasau darlledu ac archifo'r Rhaglen.